**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 12 MAI 2020 DRWY SKYPE**

**Yn bresennol:** Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May; Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Josh Lovell (Swyddog Arolygon); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes); Mrs Cath Thomas (Swyddog Cymorth Busnes)

**Amser dechrau:** 09:30
**Amser gorffen:** 13:45

## 1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd Mr Theo Joloza a Mrs Shereen Williams fuddiant yng Nghasnewydd, gan fod y ddau ohonynt yn byw yng Nghasnewydd. Datganodd Mrs Julie May fuddiant yng Nghastell-nedd Port Talbot, fel cydberchennog eiddo.

## 2. Brîff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Prif Weithredwr (PW) ddiweddariad o'r cyfarfod gyda Lisa James (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg), a rhoddodd wybod iddi fod y Comisiwn yn bwriadu ailddechrau'r holl arolygon gohiriedig ar 15 Mehefin 2020.

2.2. Gofynnodd y PW i orchmynion llywodraeth leol gael eu gwneud ar ôl i arolwg y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddechrau, er mwyn sicrhau cysondeb o ran ffiniau wardiau etholiadol ledled Cymru ar gyfer yr arolwg seneddol.

2.3. Mae'r drafft cyntaf o Orchymyn Sir Fynwy gyda thîm Llywodraeth Leol LlC o hyd i'w adolygu.

2.4. Mae rheoliadau ar waith i awdurdodau lleol gyfarfod erbyn hyn, ac nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ohirio etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

2.5. Nodwyd bod dau o Swyddogion Arolygon y Comisiwn wedi mynd ar secondiad i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r ymateb i COVID-19.

2.6. Roedd Lisa James (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg) yn fodlon â'r cais i'r Comisiwn dynnu ei gyllid i lawr bob chwarter. Mae'r PW wedi gofyn i'r adran hon o'r ddogfen fframwaith, sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau ar falans banc y Comisiwn ar ddiwedd y mis, gael ei diwygio.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2020

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 4. Materion yn codi

Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 05 Mai 2020, gan y Prif Weithredwr, a nodwyd cynnydd mewn perthynas â'r canlynol:

4.1. (Mater 1) **Gweithredu –** PW i ddiweddaru'r Rhaglen Newid â chamau gweithredu allweddol y cytunwyd arnynt fel rhan o ymateb y Comisiwn i'r arolwg staff, a sefydlu Pwyllgor y Bobl.

4.2. (Mater 2) **Gweithredu** – PW i roi'r dasg i SCB helpu i drefnu Holiaduron Ôl-arolwg.

4.3. (Mater 3) **Gweithredu** – PW i gysylltu â phedwar cyngor (Caerffili, Caerdydd, Bro Morgannwg, Wrecsam) ar 1 Mehefin i roi gwybod iddynt y bydd y Comisiwn yn ailddechrau cyfnodau ymgynghori. Gellir ystyried oedi rhesymol fesul cyngor, yn ôl yr angen.

4.4. (Mater 5) Rhoddwyd y newyddion diweddaraf am gynnydd y Cytundeb Fframwaith. Mae'r Adran Noddi yn aros am dempled drafft o'r Cytundeb Fframwaith newydd gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus.

4.5. (Mater 6) Cadarnhawyd nad oes angen estyniadau ar argymhellion archwilio.

4.6. (Mater 7) Nodwyd bod y Cynllun Gweithredol wedi'i anfon at Julie James (Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol, LlC) a'i bod wedi rhoi sylwadau. **Gweithredu –** PW i ddiweddaru'r Cynllun Gweithredol.

4.7. Cafwyd sylwadau ychwanegol gan y Comisiynwyr yn ymwneud â'r Cynllun Gweithredol. **Gweithredu –** PW i gynnwys gwaith paratoadol ar y Polisi ac Arfer ar gyfer y rownd nesaf o arolygon yn 20/21 fel rhan o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd busnes y Comisiwn.

4.8. Nodwyd bod adrannau 1, 2 a 3 yn y Cynllun Gweithredol angen eu categoreiddio. **Gweithredu –** Categoreiddio adrannau 1, 2 a 3 yn Amcanion Corfforaethol.

4.9. (Mater 8) Rhoddodd y Prif Weithredwr gadarnhad y bydd unrhyw aelodau staff y mae angen iddynt fynd i'r swyddfa i ymgymryd â gwaith

hanfodol yn cael tystysgrif awdurdodi.

## 5. Castell-nedd Port Talbot – Adroddiad Opsiynau Terfynol

5.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 04 Mai 2020, gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, sef Cwmllynfell, Gwauncaegurwen, Godre’r Graig, Brynaman Isaf ac Ystalyfera, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol Cwmllynfell ac Ystalyfera, Godre’r Graig, a Gwauncaegurwen a Brynaman Isaf.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Nad oedd unrhyw gynnydd na gostyngiad o gymharu â’r cynigion drafft.

**Mae’r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 5 o aelodau, yn unol â’r aelodaeth bresennol.**

5.3. Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau a argymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Cwmllynfell and Ystalyfera | Cwmllynfell ac Ystalyfera |
| Godre'r Graig | Godre'r Graig |
| Gwaun-Cae-Gurwen and Lower Brynamman | Gwauncaegurwen a Brynaman Isaf |

5.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 2, sef Pontardawe a Threbannws, a **chytunodd ar opsiwn 2.** Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol Pontardawe a Threbannws, ac mae’n trosglwyddo 282 o etholwyr o ward Pontardawe i ward Trebannws.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Nid yw’n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Mae’n cadw’r un nifer o aelodau â’r cynigion drafft.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 3 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

5.5. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Pontardawe | Pontardawe |
| Trebanos | Trebannws |

5.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 3, sef Blaengwrach, Creunant, Glyn-nedd, Onllwyn, Resolfen, Blaendulais a Thonnau, a **chytunodd ar opsiwn 2.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol, sef Creunant, Onllwyn a Blaendulais, Canol a Dwyrain Glyn-nedd, Blaengwrach a Gorllewin Glyn-nedd, a Resolfen a Thonnau.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Mae'n ceisio mynd i'r afael â'r nifer fawr o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cyfuno Blaengwrach a Glyn-nedd.
- Mae'n cadw'r un nifer o aelodau â'r cynigion drafft.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 6 o aelodau, sef dau yn llai na'r aelodaeth bresennol.**

5.7. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Crynant, Onllwyn and Seven Sisters | Creunant, Onllwyn a Blaendulais |
| Glynneath Central and East | Canol a Dwyrain Glyn-nedd |
| Blaengwrach and Glynneath West | Blaengwrach a Gorllewin Glyn-nedd |

| | |
|---|---|
| Resolven and Tonna | Resolfen a Thonnau |

5.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 4, sef Cymer, Glyncorrwg a Gwynfi, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Cymer a Glyncorrwg, a Gwynfi a Chroeserw.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 2 aelod, sef un yn llai na'r aelodaeth bresennol.**

5.9. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a amlinellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Cymmer and Glyncorrwg | Cymer a Glyncorrwg |
| Gwynfi with Croeserw | Gwynfi a Chroeserw |

5.10. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 5, sef Bryn a Chwmafan, Cimla a Phelenna, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Bryn a Chwmafan, a Chimla a Phelenna.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Nid oes unrhyw gynnydd na gostyngiad, o gymharu â'r cynigion drafft.
- Mae'n ceisio ymateb i fwyafrif y cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 5 o aelodau, sef un yn llai na'r aelodaeth bresennol.**

5.11. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Bryn and Cwmavon | Bryn a Chwmafan |
| Cimla and Pelenna | Cimla a Phelenna |

5.12. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 6, sef Aberafan, Margam, Port Talbot a Thai-bach, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol, sef Aberafan, Margam a Thai-bach, a Phort Talbot.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Mae'n cadw'r un nifer o aelodau â'r cynigion drafft.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 7 o aelodau, sef dau yn llai na'r aelodaeth bresennol.**

5.13. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Aberavon | Aberafan |
| Margam and Tai-bach | Margam a Thai-bach |
| Port Talbot | Port Talbot |

5.14. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 7, sef Canol Coed-ffranc a Gorllewin Coed-ffranc, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Canol Coed-ffranc a Gorllewin Coed-ffranc.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 4 aelod, sef un yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

5.15. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Coedffranc Central | Canol Coed-ffranc |
| Coedffranc West | Gorllewin Coed-ffranc |

5.16. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 8, sef Gogledd Bryn-coch, De Bryn-coch, Llangatwg, Gogledd Coed-ffranc, a Dyffryn, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pum ward etholiadol, sef Gogledd Bryn-coch, De Bryn-coch, Llangatwg, Gogledd Coed-ffranc, a Dyffryn.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Mae'n ymateb i'r pryderon a fynegwyd mewn nifer o gynrychiolaethau.
- Nid oes unrhyw gynnydd na gostyngiad o gymharu â'r cynigion drafft.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 7 o aelodau, sef un yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

5.17. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Bryn-côch North | Gogledd Bryn-côch |
| Bryn-côch South | De Bryn-côch |
| Cadoxton | Llangatwg |
| Coedffranc North | Gogledd Coed-ffranc |
| Dyffryn | Dyffryn |

## 6. Casnewydd – Adroddiad Opsiynau Terfynol

6.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 24 Ebrill 2020, gan y Swyddog Arolygon.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 1, sef Beechwood, Betws a Victoria, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol, sef Beechwood, Betws a Victoria.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw'r wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n darparu dau aelod yn fwy na'r cynigion drafft.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 8 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

6.3. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Beechwood | Beechwood |
| Bettws | Betws |
| Victoria | Victoria |

6.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 2, sef Y Graig a Thŷ-du, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol, sef Y Graig, Dwyrain Tŷ-du, Gogledd Tŷ-du a Gorllewin Tŷ-du.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'n opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 6 o aelodau, sef un yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

6.5. Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau a argymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Graig | Y Graig |
| Rogerstone East | Dwyrain Tŷ-du |
| Rogerstone North | Gogledd Tŷ-du |
| Rogerstone West | Gorllewin Tŷ-du |

6.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 3, sef Maerun a Pharc Tredegar, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys ward etholiadol Maerun a Pharc Tredegar.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw’n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae’n cadw’r un nifer o aelodau â’r cynigion drafft.

**Mae’r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 3 o aelodau, yn unol â’r aelodaeth bresennol.**

6.7. Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau a gynigir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Marshfield and Tredegar Park | Maerun a Pharc Tredegar |

6.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 4, sef Pilgwenlli a Stow Hill, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Pilgwenlli a Stow Hill.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 4 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

6.9. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Pillgwenlly | Pilgwenlli |
| Stow Hill | Stow Hill |

6.10. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 5, sef Langstone, Llan-wern, Lliswyry a Ringland, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol, sef Trefesgob a Langstone, Llan-wern, Lliswyry a Ringland.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 10 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

6.11. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Bishton and Langstone | Trefesgob a Langstone |
| Llanwern | Llan-wern |
| Lliswerry | Lliswyry |
| Ringland | Ringland |

## 7. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

7.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 4 Mai 2020, gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni (PPRh), a **nodwyd** ei gynnwys.

7.2. Crybwyllwyd y bydd Adroddiadau Terfynol Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Comisiwn ym mis Mehefin. **Cytunwyd** y byddai cyfarfod ychwanegol ganol mis Mehefin i gytuno ar yr adroddiadau.

7.3. Mae Adroddiad Terfynol Sir y Fflint gyda'r argraffwyr, a **chytunwyd** ar 16 Mehefin fel y dyddiad cyhoeddi. Bydd brîff i Brif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir y Fflint yn cael ei drefnu cyn ei gyhoeddi.

7.4. Mae Arolygon Etholiadol Wrecsam, Caerffili, Caerdydd a Bro Morgannwg wedi'u gohirio o hyd tan 15 Mehefin. **Cytunwyd** y byddai'r PW yn cysylltu â'r Cynghorau dan sylw i roi gwybod iddynt y byddant yn ailddechrau ar 15 Mehefin. Bydd y PPRh yn anfon neges e-bost at staff a Chomisiynwyr â'r dyddiadau newydd ar gyfer diwedd yr ymgynghoriadau ar gyfer yr arolygon hyn.

7.5. Mae Adroddiad Drafft Ynys Môn yn barod i'w argraffu, a **chytunwyd** ar 16 Mehefin fel y dyddiad cyhoeddi, gyda'r ymgynghoriad yn dechrau'r wythnos ganlynol. Bydd y PPRh yn anfon neges e-bost at Gomisiynwyr a staff â dyddiadau'r ymgynghoriad. Bydd rhithgyfarfod yn cael ei drefnu ag Arweinwyr, a bydd y PPRh yn briffio Huw Blacker ynghylch hyn.

7.6. Bydd rhag-ymgynghoriad Sir Fynwy yn dechrau ym mis Mehefin. **Cytunwyd** y dylai'r Swyddog Arolygon gysylltu â'r Cynghorau Tref a Chymuned i gael cyfeiriadau cyfredol er mwyn anfon mapiau cyn y rhag-ymgynghoriad, a bydd y PW yn paratoi llythyr i'w ddosbarthu. Mae'r Gorchymyn Cymunedol yn weddill o hyd.

## 8. Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg

8.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 5 Mai 2020, gan y PW.

8.2. **Cytunwyd** cymeradwyo'r adroddiad yn amodol ar y newidiadau canlynol.

8.3. Dylai **Adran 2. Trosolwg o 2019/20** gyfeirio at y Ffurflenni Asesu Effaith ar y Gymraeg. Dylai'r ail baragraff gynnwys manylion am ein dysgwyr Cymraeg. Dylai'r trydydd paragraff sôn bod y mater yn ymwneud â'r ffôn o ganlyniad i'n hymateb i ymarfer siopwr cudd. Dylai'r pedwerydd

paragraff gynnwys manylion cadarnhaol am gyflwyno cyfrifon.

8.4. Dylai **tudalen 5 Safonau Cadw Cofnodion** groesgyfeirio at y gŵyn yn Adran 2 paragraff 4.

8.5. O ran **Safonau Gweithredol, cytunwyd** y bydd y PW yn gwirio bod yr holl arwyddion yn y brif swyddfa wedi'u harddangos yn y Gymraeg ac, os nad ydynt, y bydd yn unioni hynny.

## 9. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

9.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 1 Mai 2020, gan y Rheolwr Cyllid, a **nodwyd** ei gynnwys.

9.2. **Nodwyd** bod yr holl newidiadau a gytunwyd yn y cyfarfod blaenorol wedi'u rhoi ar waith.

9.3. **Cytunwyd** y gellid lleihau tebygolrwydd risg gweddilliol CR4 o 5 i 4.

## 10. Adroddiad ar y Gyllideb

10.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 12 Mai 2020, gan y Rheolwr Cyllid, a nodwyd a **chytunwyd** â'r sefyllfa gyfredol yn ymwneud â'r gyllideb.

10.2. **Nodwyd** bod gwariant y Comisiwn ar gyfer 2019-20 o fewn y gyllideb o ran arian parod ac adnoddau, gyda mân danwariant yn unig o £14,000 o gymorth grant (ni dderbyniwyd y £2,000 ychwanegol y gofynnwyd amdano gan Lywodraeth Cymru ond, wedi hynny, canfuwyd nad oedd ei angen). Cytunodd y Comisiwn ar yr alldro ar gyfer 2019-20.

10.3. **Nodwyd** bod y taliad sy'n ddyledus ar gyfer cynnal a chadw'r plotiwr newydd wedi'i gynnwys yn y swm sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn.

10.4. **Nodwyd** y dylai fod llai o bryderon o ran cyllid yn ystod 2020-21, o ganlyniad i dderbyn cyllid y Comisiwn Ffiniau i Gymru a'r diffyg gwariant cyfalaf sy'n ofynnol y flwyddyn hon. Ar ôl trafod, cymeradwyodd y Comisiwn y gyllideb ar gyfer 2020-21.

10.5. **Nodwyd** bod archwilwyr newydd wedi'u penodi ar ôl ymarfer tendro, ac y bydd contract pum mlynedd yn dechrau ar 1 Ebrill 2020.

## 11. Cyfrifon Blynyddol – Safonau Cyfrifyddu nad ydynt ar waith

11.1. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cyllid, dyddiedig 15 Ebrill, a **nodwyd** ei gynnwys.

11.2. Crybwyllwyd bod gweithredu IFRS 16 wedi'i ohirio am flwyddyn arall oherwydd cyfnod clo'r coronafeirws, ac y byddai bellach yn cael ei roi ar waith ar gyfer cyfrifon blynyddol 2021-22.

11.3. **Cytunodd** y Comisiwn ar y paragraff awgrymedig yn ymwneud â safonau cyfrifyddu nad ydynt yn effeithiol i'w gynnwys yng nghyfrifon blynyddol 2019-20.

11.4. O ran IFRS 11, **cytunwyd** y dylai'r Rheolwr Cyllid edrych ar b'un a yw'r berthynas rhwng CFfDLC a Cymwysterau Cymru yn 'drefniant ar y cyd' ai peidio.

11.5. Crybwyllwyd bod ein cyfrifyddion yn fodlon â'r dyddiad cau, sef canol mis Mehefin, ond bod y Rheolwr Cyllid yn aros i glywed gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 12. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol

12.1. Rhoddodd y PW ddiweddariad cryno ar y trefniadau cyfredol.

12.2. **Nodwyd** bod staff yn parhau i weithio gartref ac yn ymweld â'r swyddfa cyn lleied â phosibl. Rhoddwyd hysbysiad ar wefan CFfDLC yn nodi bod y swyddfa ar gau ac y caiff unrhyw gynrychiolaethau eu prosesu yn ôl dyddiad y marc post.

## 13. Calendr Digwyddiadau

13.1. **Nodwyd** cynnwys y Calendr. Crybwyllodd y PPRh fod y dyddiadau newydd ar gyfer ymgynghoriadau arolygon wedi'u hychwanegu.

## 14. Unrhyw fater perthnasol arall

Nid oedd unrhyw eitemau ychwanegol i'w trafod.

## 15. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 09 Mehefin 2020